Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf/Our Ref: ATISN 11533

20 Medi 2017

Annwyl ,

**ATISN 11533 Ymatebion i'r alwad am dystiolaeth: Paratoi ar gyfer Bil y Gymraeg**

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 22/08/2017 am yr wybodaeth ganlynol:

'*Pob ymateb a dderbyniwyd gan gyrff cyhoeddus i'r alwad am dystiolaeth 'Paratoi ar gyfer Bil y Gymraeg', ynghyd ag enwau'r cyrff y cyflwynodd yr ymatebion hynny.*'

Amgaeir copi o'r wybodaeth rwyf wedi penderfynu ei rhyddhau.

Tynnaf eich sylw at y ffaith mai barn a chanfyddiadau'r ymatebwyr a geir yn yr wybodaeth yr wyf wedi penderfynu ei rhyddhau. Nid yw cynnwys yr wybodaeth o reidrwydd yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, er mwyn deall yr ymatebion yn eu cyd-destun, cynghorir chi i ystyried yr wybodaeth ar y cyd â darpariaethau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Rwyf wedi penderfynu bod rhywfaint o'r wybodaeth yn esempt o'r gofynion datgelu o dan adran 41(1) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ac felly rhaid ei chadw'n ôl. Mae'r rhesymau dros weithredu'r esemptiadau hyn wedi'u nodi'n llawn yn Atodiad A y llythyr hwn.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

*Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*

*We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.*

Ffôn • Tel 0300 025 0509
carwyn.wycherley@llyw.cymru
Gwefan • website: www.llyw.cymru
www.gov.wales

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio FreedomOfInformationOfficer@cymru.gsi.gov.uk

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir

## Atodiad A

Rwyf wedi penderfynu cadw'r wybodaeth ganlynol yn ôl:

| Gwybodaeth a gedwir yn ôl | Rhif yr adran ac enw'r esemptiad |
|---|---|
| Gwybodaeth yn ymwneud â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn herio dyletswyddau dyfodol o dan y broses sydd wedi'i phennu ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (gweler adran 54 y Mesur). | Adran 41(1) – Gwybodaeth y byddai'n mynd ar draul hyder parti arall ynom pe byddwn yn ei rhyddhau |
| Gwybodaeth yn ymwneud ag ymchwiliad i fethiant Cyngor Gwynedd i gydymffurfio â safonau a bennir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 71 ac Atodlen 10 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 | Adran 41(1) – Gwybodaeth y byddai'n mynd ar draul hyder parti arall ynom pe byddwn yn ei rhyddhau |

Mae'r Atodiad hwn yn amlinellu'r rhesymau dros weithredu adran 41(1) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, sy'n esemptiad absoliwt nad ydyw yn ddarostyngedig i brawf budd y cyhoedd.

**Gweithredu adran 41(1) Gwybodaeth y byddai'n mynd ar draul hyder parti arall ynom pe byddwn yn ei rhyddhau: Gwybodaeth yn ymwneud â Chyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn herio dyletswyddau dyfodol o dan y broses sydd wedi'i phennu ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (gweler adran 54 y Mesur).**

Rydym ni o'r farn y dylai gwybodaeth yn ymwneud â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn herio dyletswyddau dyfodol o dan y broses sydd wedi'i phennu ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (gweler adran 54 y Mesur) fod yn esempt o'r gofynion datgelu.

Rhan allweddol o'r broses o wireddu fframwaith cyfreithiol i sicrhau argaeledd gwasanaethau Cymraeg i bobl Cymru yw'r broses o osod dyletswyddau ar gyrff y mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg yn benodol gymwys iddynt.

Ar hyn o bryd, mae'r broses sydd wedi'i phennu ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur') parthed herio dyletswyddau dyfodol (gweler adran 54 y Mesur) yn mynd rhagddi rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chomisiynydd y Gymraeg.

Rydym wedi ystyried bod y broses statudol hon yn parhau i fynd rhagddi ac y gall canlyniad y broses hon ddod yn destun achos gerbron Tribiwnlys y Gymraeg (ac, o bosib, yr Uchel Lys).

Rydym ni wedi edrych ar yr wybodaeth ac rydym yn ymwybodol bod yr wybodaeth wedi'i chreu yn bennaf at ddibenion rhoi cyngor cyfreithiol, neu at ddefnydd cyfreithwyr wrth baratoi achos at ddibenion ymgyfreitha.

O ystyried hyn, rydym o'r farn y byddai rhyddhau'r wybodaeth yn gallu achosi rhagfarn i broses statudol sydd wedi'i phennu yn y Mesur a bod yn andwyol i'r broses o bennu dyletswyddau cyfreithiol ar gyrff cyhoeddus. Yn ein barn ni, gallai hyn danseilio hygrededd ac uniondeb y broses statudol sydd wedi'i phennu yn y Mesur.

Yn ogystal, rydym yn ymwybodol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr atal gwybodaeth debyg rhag cael ei chyhoeddi ar sail posibilrwydd y gall yr achos ddod yn achos cyfreithiol. Rydym yn ymwybodol bod penderfyniad y cyngor wedi bod yn destun apêl

i'r Comisiynydd Gwybodaeth,[1] a bod y Comisiynydd Gwybodaeth wedi cytuno gyda phenderfyniad gwreiddiol y cyngor i atal yr wybodaeth rhag cael ei chyhoeddi. Yn ein barn ni, mae'r camau sydd wedi'u cymryd gan y cyngor i gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol yn creu disgwyliad rhesymol ar ochr y cyngor y byddai Llywodraeth Cymru'n cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol.

O ystyried y ffactorau i gyd, rydym wedi ein bodloni bod yr wybodaeth yma wedi'i darparu i Lywodraeth Cymru gyda disgwyliad rhesymol y byddai'n cael ei chadw'n gyfrinachol, ac y byddai ei rhyddhau yn mynd ar draul eu hyder ynom o fewn ystyr adran 41(1) y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

**Gweithredu adran 41(1) Gwybodaeth y byddai'n mynd ar draul hyder parti arall ynom pe byddwn yn ei rhyddhau: Gwybodaeth yn ymwneud ag ymchwiliad i fethiant Cyngor Gwynedd i gydymffurfio â safonau a bennir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 71 ac Atodlen 10 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

Un rhan allweddol o gyfundrefn Safonau'r Gymraeg yw pwerau Comisiynydd y Gymraeg i gynnal ymchwiliadau o dan adran 71 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011('y Mesur') i ymchwilio p'un a yw person wedi methu cydymffurfio â safon sydd wedi'i bennu gan Weinidogion Cymru.

Rydym ni wedi ystyried yr wybodaeth dan sylw yng nghyd-destun darpariaethau'r Mesur yn ymwneud â'r ymchwiliadau yma.

Rydym ni wedi ystyried opsiynau Comisiynydd y Gymraeg mewn achosion o fethiant i gydymffurfio â safon sydd wedi'u cynnwys yn adran 77 y Mesur. Oni bai bod Comisiynydd y Gymraeg yn penderfynu ei wneud yn ofynnol i gorff roi cyhoeddusrwydd i fethiant i gydymffurfio â safon, neu bod y Comisiynydd ei hun yn penderfynu gwneud hynny (a bod hynny wedi'i gynnwys mewn hysbysiad penderfynu), nid yw Comisiynydd y Gymraeg yn dwyn cyhoeddusrwydd i fethiant corff i gydymffurfio nac unrhyw ddyfarniad arall sydd wedi'u rhoi mewn adroddiad o'r math dan sylw. Yr unig wybodaeth a gyhoeddir gan Gomisiynydd y Gymraeg yn y cyd-destun yma yw'r wybodaeth sy'n ofynnol i Gomisiynydd y Gymraeg ei chyhoeddi yng nghofrestr camau gorfodi Comisiynydd y Gymraeg.

O ystyried hyn oll, penderfyniad Comisiynydd y Gymraeg yw p'un a ddylid rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant corff i gydymffurfio â safon. Yn ein barn ni, fe fyddai rhyddhau'r wybodaeth yma'n tanseilio penderfyniad Comisiynydd y Gymraeg i beidio â rhoi cyhoeddusrwydd i'r methiant yn yr achos yma. Yn ogystal, yn ein barn ni, byddai rhyddhau'r wybodaeth yn peri risg o danseilio hyder cyrff sy'n ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg ac achwynwyr yn y trefniadau yma.

Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi ystyried y rhwystrau a roddir ar allu Comisiynydd y Gymraeg i ddatgelu gwybodaeth yn adran 22 y Mesur ynghyd â chanfyddiadau'r Comisiynydd Gwybodaeth mewn achos yn ymwneud â'r adran yma a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.[2]

O gymryd y pwyntiau yma oll i ystyriaeth, rydym ni o'r farn bod yr wybodaeth yma wedi'i darparu i Lywodraeth Cymru gyda disgwyliad rhesymol gan Gyngor Gwynedd y byddai'n cael ei chadw'n gyfrinachol. O ganlyniad, rydym ni o'r farn y byddai ei rhannu yn mynd ar

[1] Cyfeirnod yr achos ystyriwyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth: FS50650678
[2] Cyfeirnod yr achos ystyriwyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth: FS50615375

draul hyder Cyngor Gwynedd ynom o fewn ystyr adran 41(1) y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.